**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Gofyniad preswylio ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

**Cyfeirnod:** SR21/837-13

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1186

**Teitl y ddeiseb**: Dylid atal pobl nad ydynt wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 6 mis rhag ymgeisio yn etholiadau'r Senedd

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae rhai pleidiau gwleidyddol yn parasiwtio ymgeiswyr i mewn o rannau eraill o'r DU ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

Drwy gyflwyno'r ymgeiswyr hyn mae gwerth y Senedd yn cael ei lastwreiddio gan nad ydynt yn gyfarwydd â phobl Cymru, heb sôn am yr etholwyr y maent i fod i'w cynrychioli.

# 1. Ymgeiswyr yn Etholiad y Senedd 2021

Adroddwyd bod o leiaf 23 o'r ymgeiswyr yn etholiad y Senedd yn 2021 yn preswylio y tu allan i Gymru.

Mae 'parasiwtio' yn derm sy'n disgrifio'r arfer o gynnig ymgeiswyr gwleidyddol nad oes ganddynt gysylltiad o reidrwydd a'r etholaethau neu ranbarthau y byddant yn sefyll ynddynt.

# 2. Dim gofyniad preswylio i ymgeiswyr

I ymgeisio yn etholiadau'r Senedd, rhaid i berson:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed,
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig; a
- pheidio â bod yn anghymwys ar sail swydd, methdaliad neu garchariad.

Nid oes dim gofyniad o dan y gyfraith i ymgeisydd fod yn breswylydd nac yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

# 3. Cymhwysedd i weithredu gofyniad preswylio

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai elfennau o etholiadau datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).

Nid yw gofynion sefydlog ynghylch ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd yn fater pendol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.